# 28. PYSGOTWYR A BUGEILIAID

**Darllen:** Ioan 21: 1-14

Yn ei hunangofiant, disgrifiodd y Parchedig Ddr. Norman Goodall ei ymweliad â'i gyfaill, C. H. Dodd, ar ei wely angau. Darllenodd iddo'r hanes am Iesu yn cerdded y ffordd i Emaus gyda Chleopas a'i gydymaith. Ymateb yr ysgolhaig o Wrecsam oedd: 'Y mae yna ddwy bennod o'r Ysgrythurau rwy'n eu darllen yn fwy nag unrhyw un arall. Rydym newydd ddarllen un - y llall yw Ioan 21. I mi, y rhai hyn yw'r mwyaf hunan-ddilys (*self-authenticating)* o'r holl dystiolaethau i'r Atgyfodiad.'[17]

Sôn y mae'r bennod hon am ddiwedd cenhadaeth Crist ym mywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu o Nasareth, a dechrau cenhadaeth Crist ym mywyd ei Eglwys. Bu'r disgyblion gyda Iesu am dair blynedd a dyma'r cyfnod hwnnw yn dod i ben; dyma eu 'seremoni graddio'. Heddiw y daeth cyfnod eu prentisiaeth yng nghwmni'r Meistr i ben. Nid disgyblion mohonynt bellach ond apostolion, '*rhai sy'n cael eu danfon'*. Rhaid cofio'r yn pryd, na chaewyd ysgol y Meistr y diwrnod hwnnw ar lan mor Galilea. Mae'r ysgol hon wedi para a thyfu dros y canrifoedd gan fod y Meistr yn dal i alw disgyblion eraill ato.

Dychwelodd y Disgyblion i Galilea. Tu cefn iddynt yr oedd trawma Jerwsalem, sef yr hyn a ddigwyddodd i Iesu yn ogystal â'r hyn a ddigwyddodd iddynt hwy, bob un. Onid o blith y Deuddeg y daeth y brad, y gwadu a'r troi cefn, gan adael y Meistr yn gwbl amddifad yn nwylo ei elynion? Pan ddiffoddwyd Goleuni'r Byd ar Galfaria cafodd gobaith, hyder a hunan-barch y disgyblion eu diffodd hefyd. Yna, ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos, daeth y gwragedd a dweud ei fod yn fyw, ond ffolineb oedd y fath siarad. Wedyn, daeth yr Arglwydd ei hun atynt i'r Oruwch Ystafell, gan fynd a dod yn ddirybudd nifer o weithiau yn ystod y dyddiau canlynol. Siaradodd am eu gadael a mynd at ei Dad; canlyniad hyn oll oedd eu gadael yn ansicr, yn anesmwyth ac yn ansefydlog.

Ar ei orchymyn ef y daethant adref i aros amdano, gan gyrraedd Capernaum wedi blino'n llwyr ac yn ddryslyd eu meddwl. Hir pob ymaros, ac yn arbennig yr aros hwn! Fel arfer, Simon Pedr oedd y cyntaf i gael hen ddigon o wneud dim: '*Rwy'n mynd i bysgota'*, meddai, gan dorri ar eu tawelwch blinedig. '*Awn gyda thi'*, oedd ateb parod pob

un o'r chwe disgybl oedd gydag ef, ac yn ôl a hwy at y môr, y badau a'r rhwydau. Aethant yn ôl at yr hen bethau cyfarwydd, gan gael noddfa yn yr arferol, fel gweddwon yn golchi pob llestr yn y tŷ er mwyn ceisio llenwi'r gwacter. Ond, gorchymyn Crist oedd iddynt aros a disgwyl amdano; mwy neu lai'r un gorchymyn ag a roddodd iddynt yn yr Ardd. Yn yr ardd, aethant i gysgu yn lle aros, yng Nghapernaum aethant i bysgota. A phwy all eu beio hwy?

Noson o siom gawsant heb ddal dim - gwastraff amser ac egni oedd eu holl ymdrechion. Erbyn y bore, yr unig lwyth ar y bad oedd blinder a rhwystredigaeth y pysgotwyr blin a blinedig, heb yr un pysgodyn i'w ddangos am eu holl lafur. O'r diwedd, cododd yr haul y tu ôl i fryniau'r Golan gan roi terfyn ar noson hir a diflas. Wrth iddynt ddechrau tua Capernaum safodd dyn ar y lan ond nid adwaenwyd ef gan yr un o'r pysgotwyr. Pysgod neu absenoldeb pysgod oedd yr unig beth ar eu meddyliau. Galwodd llais arnynt o'r lan: '*Helo, fechgyn! Wedi dal rhywbeth?*' '*Na*!' oedd eu hateb swrth â rhwyd wag yn dyst o'u methiant! Cyn diwedd y dydd byddai pawb yn Nghapernaum wedi clywed am fethiant y pysgotwyr a ddychwelodd adref ar ôl rhedeg i ffwrdd o'u priod le i ddilyn Saer o'r bryniau. Peth hawdd iddynt oedd dychmygu'r chwerthin a'r tynnu coes diddiwedd gan eu cymdogion. Galwodd y llais eto: '*Bwriwch y rhwyd i'r ochr dde! Pa hawl oedd gan ddyn ar y lan i ddweud wrth bysgotwyr sut i bysgota?'* Yn ei lyfr, '*In the Steps of the Master'*, y mae gan H. V. Morton ddisgrifiad o ddau ddyn wrth eu gwaith ym môr Galilea: un yn sefyll yn y dŵr gyda'i rwyd tra bod y llall ar y lan yn dweud wrtho ble i'w bwrw hi. Gwelais innau olygfa debyg yn yr un ardal flynyddoedd lawer yn ddiweddarach. Mae'r dyn sy'n sefyll ar y lan yn gweld i lawr i ddyfnderoedd y dŵr a rhaid i'r llall ufuddhau iddo. '*Cystal gwneud!*' meddai aelod o'r criw, ac felly y bu. Er mawr ryfeddod iddynt, llenwyd y rhwyd ar unwaith gan lu o bysgod. Rhywsut, yn sydyn, adnabuwyd y llais o'r lan gan Ioan: '*Yr Arglwydd yw!*' Yn ddiymdroi gadawodd Simon Pedr bopeth a phawb arall, gan neidio i'r dŵr a nofio i'r lan, gan adael i'r lleill ddod â'r bad a'r rhwyd ar ei ôl.

Beth am y pysgod? Yn ôl Ioan, cafwyd 153 ohonynt yn y rhwyd. Sut gwyddai Ioan hynny? Rhaid bod rhywun wedi eu cyfrif - efallai mewn rhyfeddod, neu i fwynhau eu llwyddiant, neu i wneud amcangyfrif o'u gwerth, neu embaras, neu awydd i osgoi edrych i mewn i'r llygaid clir a chyfarwydd.

Esboniad arall sydd gan Jerome:[18] 'Dyma rif cyfanswm y mathau o bysgod yn holl ddyfroedd y byd.' Dynion, nid pysgod sy'n cael sylw Ioan, gan awgrymu fod y rhif o'r arwyddocâd mwyaf i'r apostolion hyn sydd ar fin eu danfon allan i'r byd i fod yn bysgotwyr dynion. A beth am y rhwyd? Pwysleisia Ioan na thorrwyd y rhwyd, mewn gwrthgyferbyniad i'r hanes am eu galwad gyntaf i ymadael â'r hen fywyd yn Luc 5. Bryd hynny, dywedodd Iesu wrth Simon Pedr i fynd allan eto ar ôl noson arall o fethiant a bwrw ei rwyd i'r dyfnderoedd; daliodd cymaint o bysgod nes peri i'r rhwyd rwygo. Ar ôl hyn, galwodd Iesu Simon Pedr i fod yn bysgotwr dynion. Nid yw gofalu am gwch a rhwydau yn ddiben ynddo'i hun i bysgotwyr; diben y cyfan yw dal pysgod. Nid dysgu Cristnogion i ofalu am eu hadeiladau a'u fframweithiau diwinyddol ac enwadol yw diben bodolaeth Eglwys Crist, ond eu paratoi a'u hanfon allan at waith y Deyrnas gan edrych ymlaen at gynhaeaf mawr y byd.

Wrth i'r disgyblion ddod i'r lan, gwelsant fod yr Arglwydd, yn ôl ei arfer, wedi paratoi ar eu cyfer – gyda thân yn llosgi a brecwast yn barod – fel y gwnaeth yn yr Oruwch Ystafell y noson y bradychwyd ef. Gofynnodd iddynt ddod â physgod o'u dalfa eu hunain. Daeth Simon Pedr â rhai gan eu gosod yn yr un badell a'r pysgod oedd yno eisoes. Y mae gan ei apostolion le arbennig ym mhob oes yn y paratoadau ar gyfer gwledd y Deyrnas.

**Gweddi**:
*Arglwydd, dim ond un bywyd sydd gennym i'w fyw,*
*y bywyd a roddaist ti i ni,*
*y bywyd a waredaist.*
*Cynorthwya ni i wneud y defnydd gorau ohono,*
*gan beidio ei wastraffu na'i afradu.*
*Dangos dy gynllun i ni a'th fwriad ar gyfer ein bywydau,*
*a boed i ni gael ein llawenydd yn gwneud dy ewyllys di*
*gan dy wasanaethu holl ddyddiau ein bywyd.*
*Arglwydd, gwared ni rhag byw yn ofer;*
*er mwyn Iesu Grist. Amen.*
*(Frank Colquhoun, 1909-1996)*